**BWRDD PENSIWN RHCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Llun, 30 Mai 2022 am 10.00am.

## Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -

Yr Athro Hugh Coombs – Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Ms Sindy Absalom – Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr)
David Francis – Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

## Swyddogion yn bresennol:-

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd – Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys
Mrs S Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau

**1 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf Bwrdd Pensiwn RhCT ar gyfer Blwyddyn 2022-23 y Cyngor. Cytunodd y Cadeirydd i drafod yr agenda mewn trefn wahanol.

**2 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Aeth y Cadeirydd ati i atgoffa'r aelodau o gyfrinachedd y trafodion.

**3 COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 31 Ionawr 2022 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

**4 Materion sy'n Codi:**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd o ganlyniad i gofnodion y cyfarfod ym mis Ionawr 2022:

- Tudalen 4: Nodwyd bod cyflwyniad Baillie Gifford wedi dod i law;
- Tudalen 4: Nodwyd bod Swyddog Graddedig RhCT wedi'i wahodd i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf;
- Tudalen 4: Cadarnhawyd bod dyddiad cwblhau polisi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (JCC);
- Tudalen 6: Cadarnhawyd nad oedd Arolwg y Rheolydd Pensiynau wedi

dod i law. Roedd disgwyl iddo ddod i law yn 2021.

**Camau gweithredu:**

Cytunwyd y byddai dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol yn cael eu rhannu cyn gynted ag sy'n bosibl, a hynny wrth ystyried dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau sydd wedi'u trefnu.

**Cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn**

Doedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth ddim ar-lein eto. Serch hynny, byddan nhw'n cael eu rhannu ag Aelodau cyn gynted ag sy'n bosibl. Nodwyd bod Aelodau'r Bwrdd Pensiwn wedi mynychu'r cyfarfod yma ar y cyd ac wedi cyfrannu at y drafodaeth.

**Cofnodion Partneriaeth Pensiwn Cymru**

Roedd cofnodion Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gael ar-lein.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i nodi ei fod wedi mynychu'r cyfarfod rheolaidd i gadeiryddion byrddau pensiwn, sy'n cael ei gynnal bob chwe mis, ar 23 Mawrth. Cafodd cynllun busnes y flwyddyn sydd i ddod ei drafod. Amlinellodd y Cadeirydd fod y rheiny yn y cyfarfod wedi trafod meysydd datblygu polisi amrywiol megis buddsoddiad cyfrifol yn y maes yma; cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Friends of the Earth; cadarnhau penodiadau'r cynrychiolydd aelodau a'r dirprwy. Hefyd cafodd rhaglen hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru ganmoliaeth; cafwyd cyflwyniad gan ymgynghorwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gynnydd boddhaol buddsoddiadau gyda chyllid RhCT ac enillodd Partneriaeth Pensiwn Cymru gronfa'r flwyddyn ar gyfer 2021. Roedd gwaith hefyd yn cael ei gynnal ar gontract newydd ar gyfer gwasanaethau buddsoddi cyn y dyddiad penodol. Roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn ymgysylltu â chronfeydd cyfwerth wrth gyfnewid gwybodaeth. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y bartneriaeth wrth drafod y gyllideb, a chafodd atebion a oedd wedi rhoi sicrwydd. Roedd y cyfarfod wedi cydnabod cyflawniad Partneriaeth Pensiwn Cymru wrth gofrestru ar gyfer y cod stiwardiaeth.

**5 PANEL YMGYNGHORI – BUDDSODDI A GWEINYDDU**

**6 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion Aelodau'r Bwrdd at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd.

Cytunodd y Bwrdd i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddi at y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, ac ychwanegu at y rhestr yn rheolaidd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd.

**7 MONITRO RISG**

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

Cafodd y pwyntiau canlynol eu nodi:

- Tudalen 31 – Cytunodd IT i ehangu'r mesurau rheoli darpariaeth o dan risg y prisiant

**PENDERFYNODD** y Bwrdd nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

**8 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r Bwrdd.

Hefyd, rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gyfarfod Partneriaeth Pensiwn Cymru roedd wedi'i gadeirio ar 24 Ebrill 2022. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2022 a chadarnhaodd y Cadeirydd y bydd yn mynychu'r cyfarfod. Cafodd y mater cynllunio wrth gefn ei godi yng nghyd-destun y drafodaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ym mis Mawrth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

**9 LLYWODRAETHU - DIWEDDARIAD O RAN COVID**

Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y trefniadau llywodraethu ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i amgylchiadau Covid.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod bod Gwasanaeth Pensiynau RhCT yn bwriadu mabwysiadu dull hybrid a bod staff wrthi'n gweithio yn y swyddfa 2 ddiwrnod yr wythnos.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r diweddariad.

**10 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL**

**<u>McCloud</u>**

-

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Bwrdd mewn perthynas â'r mater yma ac y delir ag ef fel darparu prosiect parhaus.

-

**11 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL**

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd – Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys ddiweddariad i Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â materion amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau'r Bwrdd nodi'r diweddariad ar

lywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

**12 UNRHYW FATERION ERAILL**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau yn dilyn yr etholiad lleol diweddar. Wrth ystyried trosiant aelodaeth y Pwyllgor yma sy'n gytbwys yn wleidyddol, mae trefniadau dysgu a datblygu priodol wedi cael eu ffurfioli ar gyfer parhad llywodraethu da. Cynigiodd Cadeirydd y Bwrdd ei gymorth, os bydd angen.

**CYTUNWYD** y byddai'r cyfarfod nesaf yn un hybrid, gyda chyfle i gwrdd wyneb yn wyneb yn Nhŷ Oldway, Porth.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm**

**MR H. COOMBS**
**CADEIRYDD.**

**1**

**2**